OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1706 (Cy.168)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Dros Dro) (Amgylchiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*27 Mehefin 2006*
Yn dod i rym - -	*30 Mehefin 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 103(5)(a) a (6) o Ddeddf Tai 2004(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Gorchmynion Rheoli Dros Dro) (Amgylchiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 30 Mehefin 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i dai yng Nghymru y mae adran 103 o Ddeddf Tai 2004 ("y Deddf") yn gymwys iddynt(**2**).

Amgylchiadau rhagnodedig ar gyfer awdurdodi gorchmynion rheoli dros dro y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddynt

2.—(1) Mae'r amgylchiadau a ganlyn yn amgylchiadau a ragnodwyd at ddibenion adran 103(**3**) o'r Ddeddf—

(a) bod yr ardal y mae'r tŷ wedi ei leoli ynddi yn profi problem sylweddol a chyson sy'n cael ei hachosi gan ymddygiad gwrth-gymdeithasol(**3**);

(b) y gellir priodoli'r broblem honno, yn gyfangwbl neu'n rhannol, i un sy'n meddiannu'r tŷ;

(c) bod landlord y tŷ yn landlord yn y sector breifat;

(ch) bod landlord y tŷ yn methu â chymryd camau i wrthsefyll y broblem honno y byddai'n briodol i landlord eu cymryd; a

(d) bydd gwneud gorchymyn rheoli dros dro, pan gyfunir ef â mesurau eraill a gymerir yn yr ardal gan yr awdurdod tai lleol, neu gan bersonau eraill ynghyd â'r awdurdod tai lleol, yn arwain at leihad yn y broblem honno neu at ei dileu.

(**1**) 2004 p. 34. Mae'r pwerau a roddir gan adran 103(5) o'r Ddeddf yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. *Gweler* y diffiniad o "the appropriate national authority" ("yr awdurdod cenedlaethol priodol") yn adran 261(1).

(**2**) *Gweler* adran 103(1) o Ddeddf Tai 2004. Am ystyr "house" ("tŷ") gweler adrannau 103(7) a 99 o'r Ddeddf.

(**3**) Am ystyr "*anti-social behaviour*" (ymddygiad gwrth-gymdeithasol) *gweler* adran 57(5) o'r Ddeddf.